Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig

Cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol yng Nghymru

Cylchlythyr Ymarferwyr Rhif 5

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

DIWEDDARIAD

Cofrestr Gyhoeddus

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid i greu cofrestr gyhoeddus ganolog ar gyfer trwyddedau triniaethau arbennig a safleoedd a cherbydau sydd wedi eu cymeradwyo. Mae hynny wedi i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymeradwyo cyllid ar gyfer y prosiect.

Ymgynghoriad

Wrth inni baratoi i gyhoeddi ein dogfen ymgynghori, rydym yn bwriadu cynnal gweithdai ymgynghori wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Mae'n bwysig cael eich sylwadau ar y cynigion ar gyfer y cynllun trwyddedu yng Nghymru, ac rydym yn gobeithio y bydd y gweithdai'n gwneud y broses hon yn haws ichi. Rydym yn rhagweld na fydd y gweithdai'n para mwy na dwy awr, ac mae'n debygol y byddan nhw'n cael eu cynnal yn ystod tri mis cyntaf 2023.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, neu os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu gweithdy ac y byddech yn hoffi awgrymu dyddiadau ac amseroedd cyfleus, cysylltwch â Dr Sarah Jones **Sarah.Jones058@llyw.cymru**

Dyfarniad RSPH Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig

Mae canolfannau hyfforddi sydd wedi eu cymeradwyo bellach yn dechrau cynnig y cwrs hyfforddiant hwn:

Mae **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** yn cynnig tri dyddiad i gychwyn, sef:

- Dydd Llun 14 Tachwedd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd (ar gyfer ymarferwyr tatŵio a thyllu'r corff)
- Dydd Mawrth 22 Tachwedd, Swyddfeydd Dinesig, y Barri (ar gyfer ymarferwyr yn y sector harddwch ac ymarferwyr aciwbigo)
- Dydd Llun 5 Rhagfyr, Neuadd y Ddinas, Caerdydd (ar gyfer ymarferwyr tatŵio a thyllu'r corff)

Mae manylion llawn y cwrs undydd hwn ar gael yma:

Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (srs.wales)

Mae'r **Cyngor Cymwysterau Triniaethau Cosmetig (QCCP)** wedi creu tudalen gofrestru tra maen nhw'n trefnu dyddiadau hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn newydd. Gallwch gofrestru eich diddordeb yn RSPH Level 2 - Infection Control - (qccp.org.uk) neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hyfforddiant, e-bostiwch: contact@qccp.org.uk

Mae **Dysgu Cymunedol i Oedolion Torfaen** yn bwriadu cynnig y cwrs yn y flwyddyn newydd, ond nid yw'r dyddiadau wedi cael eu cadarnhau eto. I gofrestru eich diddordeb neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch: rachel.richards@torfaen.gov.uk

Mae **Coleg Llandrillo** yn y broses o baratoi ar gyfer darparu'r dyfarniad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyfarniad ar gael yma:

RSPH | Dyfarniad RSPH Lefel 2 mewn atal a rheoli heintiau ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, croeso ichi e-bostio Sarah Jones:
Sarah.Jones058@llyw.cymru